TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Metro De Cymru

Radur a Phentre-poeth

Pwrpas sylfaenol y Metro yw hwyluso teithio, boed ar drên, bws, beic neu ar droed. Bydd y Metro yn ei gwneud hi'n haws cyrraedd y gwaith neu'r ysgol, cyrraedd eich apwyntiad ysbyty neu fynd o gwmpas gyda'r nos ac ar benwythnosau gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio ar y Metro yn eich ardal. Mae cyfnod diweddaraf ein prosiect, a ddechreuodd yn gynt ym mis Awst 2020 ar linell Treherbert, Aberdâr a Merthyr, i fyny o orsaf Radur, yn cynnwys:

- Paratoi gwaith ar y cledrau, er mwyn inni allu ei drydaneiddio a'i foderneiddio yn y dyfodol
- Cael gwared ar lystyfiant sydd wedi gordyfu ar hyd y coridor rheilffordd presennol

Yn ddiweddarach, byddwn yn gosod y pyst a'r gwifrau uwchben, ynghyd ag addasu pontydd, croesfannau a chyfarpar arwyddion. Mae gofyn am raglen waith sylweddol, ond rydyn ni'n awyddus i roi diweddariadau cyson i chi.

Ein cymdogion ar hyd ochrau'r rheilffordd

Fe fyddwch yn gweld ein pobl yn gweithio ar y rheilffordd yn hwyr gyda'r nos a thrwy'r nos oherwydd mai dim ond pan na fydd y trenau'n rhedeg mae modd inni wneud y gwaith yn ddiogel naill ai ar ein rheilffyrdd neu'n agos iawn atynt.

Er mwyn cael mynediad at y rheilffordd i wneud ein gwaith, byddwn yn sefydlu mynedfeydd addas a safleoedd compownd dros dro yng Ngorsaf Radur, a ger yr orsaf.

Byddwn ni a'n partneriaid yn sicrhau bod ein safleoedd yn cael eu rheoli'n dda a bod ein gweithwyr yn ofalus ac ystyriol. Mae gwaith peirianneg yn gallu bod yn swnllyd, felly byddwn ni'n gweithio'n agos gyda chymunedau a busnesau lleol i egluro'r hyn rydym ni'n ei wneud a sicrhau ein bod yn tarfu cyn lleied â phosibl ar bawb.

Mae gennym gymaint o waith sy'n rhaid ei wneud felly ni fydd modd inni ysgrifennu atoch bob tro y byddwn ni'n gweithio yn eich ardal, ond bydd y wybodaeth ddiweddaraf ar gael i chi gan ein bod yn rhannu manylion ein gwaith ar ein gwefan.

Cynllunio'ch taith

Efallai eich bod yn ymwybodol nad yw'r rheilffordd i'r gogledd o orsaf Radur ar agor o 8pm ar hyn o bryd, gyda gwasanaethau bws ar waith yn lle hynny. Mae hyn er mwyn i'n timau allu dechrau ar waith dros nos a dal ati i weithio fin nos.Bydd gorsaf Radyr yn gweithredu fel y prif hyb ar gyfer newid rhwng gwasanaethau rheilffyrdd a bysiau, gyda bysiau yn disodli gwasanaethau rheilffordd. Bydd amserlen arferol y trên yn parhau i redeg rhwng Caerdydd Canolog a Radyr tan ddiwedd y gwasanaeth, gyda gwasanaethau trên cynnar y bore yn rhedeg fel arfer.

Bydd timau gwasanaeth cwsmeriaid wrth law yng ngorsaf Radyr i gyfeirio cwsmeriaid yn ôl ac ymlaen i'r prif hyb newid sydd wedi'i leoli yn y maes parcio gerllaw. Bydd cludiant ffordd yn cysylltu â'r gwasanaethau trên er mwyn sicrhau'r amseroedd aros byrraf posibl.

We're working on it

Taith Rithwir

Bydd cynllun newydd ein trenau yn cynyddu ein capasiti yn sylweddol ac yn trawsnewid profiadau teithio ein cwsmeriaid. Byddant hefyd yn cynnig llawer o nodweddion newydd yn cynnwys mynediad ar yr un lefel â'r platfform, mwy o le i storio beiciau ac aerdymheru. Ewch ar daith rithwir ar ein gwefan: www.tfwrail.wales/vr360

Mwy o wybodaeth

Mae'n amser cyffrous i drafnidiaeth ledled De Cymru a thu hwnt. Bydd ein tîm arbennig sy'n Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a'r Gymuned yn gwneud eu gorau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynlluniau.

Mae ein tîm cysylltiadau cwsmeriaid wrth law i ateb eich cwestiynau, ffoniwch 033 33 211 202 neu ewch i https://trctrenau.cymru/cy/cysylltu-ni i gael mwy o wybodaeth.

* Mae'r llinellau ar agor rhwng 08:00 - 20:00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, a rhwng 11:00 - 20:00 ar ddydd Sul.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Mwy o wybodaeth
https://trc.cymru/metrobegins
https://trc.cymru/metro-faqs